

JAMES, JOHN ('Ioan Meirion '; 1815 - 1851), llenor

Enw: John James
Ffugenw: Ioan Meirion
Dyddiad geni: 1815
Dyddiad marw: 1851
Rhiant: Sarah James
Rhiant: John James
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: llenor
Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn y Ty-gwyn, Llan-ym-Mawddwy, yn fab iau i John James (a'i goroesodd) a'i wraig Sarah; yr oedd y tad yn ddiakon gydag Annibynwyr Dinas Mawddwy, a bu'r mab hynaf, Hugh James (1809 - 1875) yn weinidog Annibynnol yn y Brithdir ac yn Llansantffraid-ym-Mechain. Aeth John James yn gynnar i Lundain; ni wyddys beth oedd ei waith yno, ond priododd ferch gyfoethog; ar adeg ei farw yr oedd yn byw yn 4, Tysoe Street, Wilmington Square. Byddai'n llenora yn y ddwy iaith, ac yn ôl **Talhaiarn** yr oedd yn aelod blaenllaw o Gymdeithas y Cymreigyddion. Ar awr anffodus i'w glod, penodwyd ef yn un o ddeuddeg cynorthwyr y comisiwn ar addysg yng Nghymru, 1846 - yn ôl pob tebyg oherwydd ei gefndir Anghydfurfiol; ond tegwch ag ef yw barnu bod ei Ymneilltuaeth erbyn hynny'n fwy o enw nag o sylwedd. Achosodd ei adroddiadau, a argraffwyd yn adroddiad y comisiwn, gyffro dirfawr, a bu yntau'n destun beirniadaeth lem gan **Lewis Edwards** (yn *Y Traethodydd* - neu gweler y ddwy ysgrif yn *Traethodau Llenyddol*, 374-421), a gwawd ffyrnig gan wyr llawer llai na **Lewis Edwards**. Y mae'n sicr ei fod erbyn 1847 wedi cefnu ar Ymneilltuaeth, oblegid yng Ngorffennaf 1847 dewiswyd ef yn ysgrifennydd i ymddiriedolwyr y 'Welsh Charity School'; a phenodwyd ef yn olygydd y newyddiadur eglwysig *Y Cymro* pan symudwyd y papur o Fangor i Lundain yn 1830. Ciciwyd ef gan ei geffyl ar Blackheath, 24 Ebrill 1851, a bu farw; claddwyd ef ym mynwent eglwys Llan-ym-Mawddwy, a dywed carreg ei fedd ei fod 'yn 36 oed.'

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Gwaith Talhaiarn (Llundain 1855), i, 435

Y Dysgedydd, 1851, 192

Y Brython, v, 451-2

Bye-Gones, relating to Wales and the Border Counties, 1894, 427

Rachel Leighton, *Rise and progress the story of the Welsh Girls' School and of the Honourable and Loyal Society of Ancient Britons* (1950), 102

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.